Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Canllaw Technegol: eithriadau gweithgarwch perygl llifogydd

Nodyn canllawiau

**Cyfeirnon:** NC 045

**Perchennog y ddogden:** Pennaeth Busnes, Perygl Llifogydd

## Hanes y fersiwn

| Ferswin | Dyddiad cyhoeddi | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Ebr-2016 | Creu dogfen |
| 2.0 | Ionawr-2017 | Cyfeirio diweddarwyd i ddeddfwriaeth |
| 3.0 | Gorffennaf 2025 | Adolygiad o'r ddogfen – wedi tynnu cyfeiriad at GPG220 |

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2027

I roi gwybod inni am faterion ney broblemau cysylltwch â:
guidance.development@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r amodau y bydd angen i chi eu bodloni os byddwch yn dymuno ymgymryd ag eithriad Gweithgarwch Perygl Llifogydd dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

Os bydd unrhyw ran o'ch gwaith arfaethedig yn mynd y tu hwnt i neu heb fod yn bodloni'r amodau sydd wedi eu pennu gan yr eithriad perthnasol, ni fydd modd i chi gyflawni'r gweithgarwch heb gofrestru i gael eithriad neu wneud cais am Drwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd arbennig.

Defnyddiwch y cynnwys isod i neidio i'r eithriad penodol sydd o ddiddordeb i chi.

## Cynnwys


Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 2: Gweithgarwch brys.......................................... 3

Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 4: Gweithgarwch sydd angen trwydded forol yng Nghymru .......................................................................................................... 4

Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 5: Ysgolion a thyrau sgaffaldiau ........................... 4

Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 6: Gwasanaeth sy'n croesi oddi mewn i adeiledd sydd eisoes yn bod ............................................................................................. 5

Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 7: Dyfeisiadau gwarchod rhag llifogydd sy'n sownd wrth adeilad ............................................................................................. 6

Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 8: Gwaith mân ar neu sy'n cael effaith ar bontydd a chwlferi................................................................................................................ 7

Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 9: Ffensys ......................................................... 8

Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 10: Maglau pysgod.............................................. 9

Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad11: Hysbysfyrddau ............................................. 10

Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 12: Maglau gwaddodion wedi eu codi'n bwrpasol11

Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 13: Dyfrdyllau a thyllau prawf archwilio safle....... 12

# Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 2: Gweithgarwch brys

## Disgrifiad o’r gweithgarwch

Unrhyw weithgarwch sy’n cael ei gyflawni mewn achos brys.

Mathau o weithgarwch na allwch eu cyflawni:

- Ymatebion a gynlluniwyd ymlaen llaw i sefyllfaoedd brys, e.e. amddiffynfeydd wedi eu cynllunio.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy nag y mae’r eithriad hwn yn ei ganiatáu neu fel arall ni fydd eich gweithgarwch yn cael ei eithrio.

### Amodau cynllunio

- Nid yw’r gweithgarwch hwn yn weithgarwch brys a gynlluniwyd ymlaen llaw. Golyga hyn unrhyw weithgarwch sydd wedi ei gynllunio mewn ymateb i sefyllfa frys cyn i honno ddigwydd.

### Amodau amser a dull

- Bydd y person sy’n cyflawni’r gweithgarwch yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i’r rheolydd cyn gynted ag y bydd hynny’n ymarferol bosib yn nodi bod y gweithgarwch yn mynd yn ei flaen a’r amgylchiadau adeg cyflawni’r gweithgarwch.
- Mae pŵer y rheolydd i gyflwyno adferiad yn gymwys mewn achos lle mae gweithgarwch wedi ei gyflawni drwy ddibyniaeth ar yr eithriad hwn fel pe bai’r gweithgarwch hwnnw’n weithgarwch anawdurdodedig.

## Pethau eraill y mae angen i chi eu gwybod

Gallwch ddefnyddio’r Map Perygl Llifogydd sydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru) (naturalresources.wales)]

Nid yw’r eithriad hwn yn cynnwys unrhyw waith dros dro sydd ei angen ar gyfer adeiladu. Cyn cyflawni’r gweithgarwch hwn, dylech gysylltu â’ch swyddfa CNC leol i drafod a fydd angen trwydded arbennig arnoch o bosib ar gyfer unrhyw waith dros dro sydd ei angen yn ystod camau adeiladu’r prosiect.

# Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 4: Gweithgarwch sydd angen trwydded forol yng Nghymru

## Disgrifiad o'r gweithgarwch

Gweithgarwch sydd angen trwydded forol yng Nghymru.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy nag y mae'r eithriad hwn yn ei ganiatáu neu fel arall ni fydd eich gweithgarwch yn cael ei eithrio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch i'w gyflawni hyd at neu o fewn 100m o brif afon sydd wedi ei dosbarthu fel un sydd â statws uchel morffolegol.

### Amodau amser a dull

- Mae cais am drwydded forol wedi ei gwneud mewn perthynas â'r gweithgarwch hwnnw.

### Pethau eraill y mae angen i chi eu gwybod

I gael mwy o wybodaeth am Drwyddedau Morol, defnyddiwch y ddolen gyswllt ganlynol: Cyfoeth Naturiol Cymru / Yn gwneud cais am Drwydded Forol? (naturalresources.wales)

# Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 5: Ysgolion a thyrau sgaffaldiau

## Disgrifiad o'r gweithgarwch

Codi a defnyddio ysgolion a thyrau sgaffaldiau ("cyfarpar").

Mathau o weithgarwch y gallwch eu cyflawni

- Defnyddio ysgol a/neu dŵr sgaffaldiau i gael mynediad i, er enghraifft bwa pont, wal, parapet ac ati.

Mathau o weithgarwch na allwch eu cyflawni:

- Codi sgaffaldau ar draws sianel neu wyneb pont.

## Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy nag y mae'r eithriad hwn yn ei ganiatáu neu fel arall ni fydd eich gweithgarwch yn cael ei eithrio.

## Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch i'w gyflawni hyd at neu o fewn 100m o brif afon sydd wedi ei dosbarthu fel un sydd â statws uchel morffolegol.

## Amodau amser a dull

- Mae addasrwydd cyflwr yr afon yn cael ei adolygu gan y gweithredwr ar bob diwrnod gwaith.
- Mae'r cyfarpar yn cael ei godi ar bob diwrnod gwaith pan fydd ei angen.
- Mae'r cyfarpar yn cael ei symud ymaith ar ddiwedd pob diwrnod gwaith ac yn cael ei storio y tu allan i'r afon a'i glannau.

## Pethau eraill y mae angen i chi eu gwybod

Gallwch ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd sydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru) (naturalresources.wales)]

Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys unrhyw waith dros dro sydd ei angen ar gyfer adeiladu. Cyn cyflawni'r gweithgarwch hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC leol i drafod a fydd angen trwydded arbennig arnoch o bosib ar gyfer unrhyw waith dros dro sydd ei angen yn ystod camau adeiladu'r prosiect.

# Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 6: Gwasanaeth sy'n croesi oddi mewn i adeiledd sydd eisoes yn bod

## Disgrifiad o'r gweithgarwch

Adeiladu a defnyddio croesfannau gwasanaeth oddi mewn i adeiledd sydd eisoes yn bod.

Mathau o weithgarwch y gallwch eu cyflawni:

- Gosod dwythell dan droedffordd a/neu ddec pont ffordd.

Mathau o weithgarwch na allwch eu cyflawni:

- Gosod dwythell ar arwyneb allanol pont neu islaw lefel ei bondo.

## Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy nag y mae'r eithriad hwn yn ei ganiatáu neu fel arall ni fydd eich gweithgarwch yn cael ei eithrio.

## Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch i'w gyflawni hyd at neu o fewn 100m o brif afon sydd wedi ei dosbarthu fel un sydd â statws uchel morffolegol.

## Amodau cynllunio

- Mae'r groesfan yn gyfan gwbl oddi mewn i broffil gwreiddiol yr adeiledd sydd eisoes yn bod.

## Amodau amser a dull

- Nid yw'r rheolydd wedi anfon hysbysiad at berchennog y tir yn nodi bod yr adeiledd wedi ei bennu ar gyfer ei symud ymaith neu ei addasu er mwyn cyflawni'r mesurau sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Rheoli Basn Afon perthnasol, oddi mewn i ystyr Erthygl 13 y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, a fwriadwyd er mwyn symud corff o ddŵr i statws da yn unol ag erthygl 4 y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
- Nid yw cyfarpar sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn cael ei storio ar wely neu lannau'r brif afon; ac
- Nid oes unrhyw waith yn cael ei wneud o'r brif afon neu o lannau'r brif afon.

## Pethau eraill y mae angen i chi eu gwybod

Gallwch ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd sydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru) (naturalresources.wales)]

Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys unrhyw waith dros dro sydd ei angen ar gyfer adeiladu. Cyn cyflawni'r gweithgarwch hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC leol i drafod a fydd angen trwydded arbennig arnoch o bosib ar gyfer unrhyw waith dros dro sydd ei angen yn ystod camau adeiladu'r prosiect.

# Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 7: Dyfeisiadau gwarchod rhag llifogydd sy'n sownd wrth adeilad

## Disgrifiad o'r gweithgarwch

Gosod dyfais sy'n gwarchod rhag llifogydd yn uniongyrchol ar adeilad er mwyn gwarchod tu mewn yr adeilad hwnnw.

Mathau o weithgarwch y gallwch eu cyflawni:

- Gosod byrddau/gatiau drws a gorchuddion brics awyru fel mesurau gwarchod rhag llifogydd yn uniongyrchol ar yr adeilad.

Mathau o weithgarwch na allwch eu cyflawni:

- Codi torlannau a/neu fflodiardau o amgylch yr eiddo, h.y. i ffwrdd oddi wrth yr adeilad dan sylw.

## Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy nag y mae'r eithriad hwn yn ei ganiatáu neu fel arall ni fydd eich gweithgarwch yn cael ei eithrio.

## Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch i'w gyflawni hyd at neu o fewn 100m o brif afon sydd wedi ei dosbarthu fel un sydd â statws uchel morffolegol.

## Amodau amser a dull

- Mae'r amddiffynfa rhag llifogydd sy'n cael ei roi gan y ddyfais yn berthnasol yn unig i'r adeilad y gosodwyd y ddyfais arno.

## Pethau eraill y mae angen i chi eu gwybod

Gallwch ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd sydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru) (naturalresources.wales)]

# Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 8: Gwaith mân ar neu sy'n cael effaith ar bontydd a chwlferi

## Disgrifiad o'r gweithgarwch

Cyflawni gwaith mân ar neu sy'n cael effaith ar bontydd a chwlferi yn achos priffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus ("gwaith mân").

Mathau o weithgarwch y gallwch eu cyflawni:

- Gwaith ar gyfer priffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus; ail-bwyntio gwaith maen; tynnu chwyn.

Mathau o weithgarwch na allwch eu cyflawni:

- Leinio cwlfer sydd eisoes yn bod.

- Ymestyn adeiledd presennol pont.
- Gosod sgriniau sbwriel neu barapetau solet.

## Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy nag y mae'r eithriad hwn yn ei ganiatáu neu fel arall ni fydd eich gweithgarwch yn cael ei eithrio.

## Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch i'w gyflawni hyd at neu o fewn 100m o brif afon sydd wedi ei dosbarthu fel un sydd â statws uchel morffolegol.

## Amodau amser a dull

- Nid yw'r gwaith mân yn cael effaith ar, neu gallai gael effaith ar, y gwely, glannau, lefel dŵr, rhediad arferol neu lifeiriant llifogydd yn y brif afon.
- Nid yw cyfarpar sy'n gysylltiedig â'r gwaith mân yn cael ei storio ar wely neu lannau'r brif afon.
- Nid oes unrhyw waith yn cael ei wneud o'r brif afon neu o lannau'r brif afon.

## Pethau eraill y mae angen i chi eu gwybod

Gallwch ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd sydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru) (naturalresources.wales)]

Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys unrhyw waith dros dro sydd ei angen ar gyfer adeiladu. Cyn cyflawni'r gweithgarwch hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC leol i drafod a fydd angen trwydded arbennig arnoch o bosib ar gyfer unrhyw waith dros dro sydd ei angen yn ystod camau adeiladu'r prosiect.

# Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 9: Ffensys

## Disgrifiad o'r gweithgarwch

Codi Ffensys.

Mathau o weithgarwch y gallwch eu cyflawni:

- Codi ffensys math amaethyddol.

Mathau o weithgarwch na allwch eu cyflawni:

- Adeiladu wal frics/goncrit neu adeiledd arall tebyg.
- Wal solet neu ffens.
- Ffensys palis.

- Weiren ieir.
- Codi unrhyw ffensys, rheiliau neu wahanfur ar draws sianel prif afon.

## Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy nag y mae'r eithriad hwn yn ei ganiatáu neu fel arall ni fydd eich gweithgarwch yn cael ei eithrio.

## Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch i'w gyflawni hyd at neu o fewn 100m o brif afon sydd wedi ei dosbarthu fel un sydd â statws uchel morffolegol.

## Amodau cynllunio

- Mae'r ffensys wedi eu gwneud o:
  - Postyn a rheilen;
  - Postyn a rhwyll weiar gyda mwy na 100 milimetr o fylchiad;
  - Postyn a gwifrau weiar.

## Amodau amser a dull

- Nid yw'r ffensys wedi eu lleoli ar wely neu lannau'r brif afon;

## Pethau eraill y mae angen i chi eu gwybod

Gallwch ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd sydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru) (naturalresources.wales)]

Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys unrhyw waith dros dro sydd ei angen ar gyfer adeiladu. Cyn cyflawni'r gweithgarwch hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC leol i drafod a fydd angen trwydded arbennig arnoch o bosib ar gyfer unrhyw waith dros dro sydd ei angen yn ystod camau adeiladu'r prosiect.

# Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 10: Maglau pysgod

## Disgrifiad o'r gweithgarwch

Defnyddio maglau pysgod dros dro.

Mathau o weithgarwch y gallwch eu cyflawni:

- Gosod strwythur tebyg i fagl pysgod.

Mathau o weithgarwch na allwch eu cyflawni:

- Maglau pysgod wrth ymyl gored.

## Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy nag y mae'r eithriad hwn yn ei ganiatáu neu fel arall ni fydd eich gweithgarwch yn cael ei eithrio.

## Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch i'w gyflawni hyd at neu o fewn 100m o brif afon sydd wedi ei dosbarthu fel un sydd â statws uchel morffolegol.
- Mae'r fagl wedi ei lleoli mwy na 50 metr i fyny neu i lawr yr afon o unrhyw argae neu adeiledd arall yn y sianel.

## Amodau cynllunio

- Nid yw mesuriadau'r fagl yn fwy na 2 metr x 1 metr x 0.75 metr.

## Amodau amser a dull

- Mae unrhyw fagl, neu gyfuniad o faglau, sydd wedi eu gosod yn y brif afon yn llai na thraean o led y sianel.
- Nid yw'r fagl yn cael ei defnyddio pan yw'r brif afon mewn llif uchel.

## Pethau eraill y mae angen i chi eu gwybod

Gallwch ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd sydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru) (naturalresources.wales)]

Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys unrhyw waith dros dro sydd ei angen ar gyfer adeiladu. Cyn cyflawni'r gweithgarwch hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC leol i drafod a fydd angen trwydded arbennig arnoch o bosib ar gyfer unrhyw waith dros dro sydd ei angen yn ystod camau adeiladu'r prosiect.

# Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad11: Hysbysfyrddau

## Disgrifiad o'r gweithgarwch

Codi hysbysfyrddau.

Mathau o weithgarwch y gallwch eu cyflawni:

- Codi bwrdd dehongli.

Mathau o weithgarwch na allwch eu cyflawni:

- Adeileddau hysbysfyrddau oddi mewn i sianel prif afon a/neu oddi mewn i sianel gynllunio cynllun lliniaru llifogydd.

## Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy nag y mae'r eithriad hwn yn ei ganiatáu neu fel arall ni fydd eich gweithgarwch yn cael ei eithrio.

## Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch i'w gyflawni hyd at neu o fewn 100m o brif afon sydd wedi ei dosbarthu fel un sydd â statws uchel morffolegol.
- Mae'r bwrdd yn fwy na 2 fetr oddi wrth unrhyw gwlfer, amddiffynfa bell neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd ar y brif afon ac oddi wrth unrhyw amddiffynfa forol.
- Mae'r bwrdd yn fwy na 2 fetr o ochr glan yr afon tua'r tir.

## Amodau cynllunio

- Mae'r bwrdd wedi ei gysylltu wrth ffensys sydd eisoes yn bod neu wrth byst parhaol sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain.

## Pethau eraill y mae angen i chi eu gwybod

Gallwch ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd sydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru) (naturalresources.wales)]

Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys unrhyw waith dros dro sydd ei angen ar gyfer adeiladu. Cyn cyflawni'r gweithgarwch hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC leol i drafod a fydd angen trwydded arbennig arnoch o bosib ar gyfer unrhyw waith dros dro sydd ei angen yn ystod camau adeiladu'r prosiect.

Dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw'r arwydd yn cyfyngu ar fynediad i gerbydau cynnal a chadw.

# Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 12: Maglau gwaddodion wedi eu codi'n bwrpasol

## Disgrifiad o'r gweithgarwch:

Clirio maglau gwaddodion sydd wedi eu codi'n bwrpasol.

Mathau o weithgarwch y gallwch eu cyflawni

- Symud tywod a silt o fagl gwaddodion sydd wedi ei chodi'n bwrpasol.

Mathau o weithgarwch na allwch eu cyflawni:

- Symud silt o wely naturiol yr afon.

## Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy nag y mae'r eithriad hwn yn ei ganiatáu neu fel arall ni fydd eich gweithgarwch yn cael ei eithrio.

## Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch i'w gyflawni hyd at neu o fewn 100m o brif afon sydd wedi ei dosbarthu fel un sydd â statws uchel morffolegol.

## Amodau amser a dull

- Dim ond tywod a silt sy'n cael eu clirio o'r fagl.
- Nid yw'r gwaith yn golygu bod tywod neu silt yn cael eu cario i lawr yr afon.
- Lle mae'r tywod a'r silt o'r gwaith clirio yn cael ei wasgaru ar y gorlifdir, bydd yn cael ei daenu i ddyfnder sydd heb fod yn fwy na 100mm a dim agosach na 8 metr o naill lan yr afon a'r llall tua'r tir.

## Pethau eraill y mae angen i chi eu gwybod

Gallwch ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd sydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru) (naturalresources.wales)]

Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys unrhyw waith dros dro sydd ei angen ar gyfer adeiladu. Cyn cyflawni'r gweithgarwch hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC leol i drafod a fydd angen trwydded arbennig arnoch o bosib ar gyfer unrhyw waith dros dro sydd ei angen yn ystod camau adeiladu'r prosiect.

# Gweithgarwch Perygl Llifogydd eithriad 13: Dyfrdyllau a thyllau prawf archwilio safle

# Disgrifiad o'r gweithgarwch

Dyfrdyllau a thyllau prawf archwilio safle oddi mewn i orlifdir.

Mathau o weithgarwch y gallwch eu cyflawni:

- Dyfrdyllau archwilio safle.

Mathau o weithgarwch na allwch eu cyflawni:

- Gwaith sy'n cael effaith ar gyfanrwydd adeileddau sydd eisoes yn bod.

## Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy nag y mae'r eithriad hwn yn ei ganiatáu neu fel arall ni fydd eich gweithgarwch yn cael ei eithrio.

## Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch i'w gyflawni hyd at neu o fewn 100m o brif afon sydd wedi ei dosbarthu fel un sydd â statws uchel morffolegol.
- Mae'r holl waith yn fwy na 5 metr o unrhyw gwlfer, adeiledd amddiffynfa bell neu amddiffynfa rhag llifogydd ar y brif afon ac oddi wrth unrhyw amddiffynfa forol.
- Mae'r holl waith yn fwy nag 8 metr o lannau prif afon nad yw'n afon lanwol.
- Mae'r holl waith yn fwy na 16 metr o lannau prif afon lanwol.

## Amodau amser a dull

- Mae'r holl waith yn cael ei gwblhau, gan gynnwys ail-lanw'r dyfrdwll neu'r pwll, cyn pen 48 awr.

## Pethau eraill y mae angen i chi eu gwybod

Gallwch ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd sydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru) (naturalresources.wales)

Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys unrhyw waith dros dro sydd ei angen ar gyfer adeiladu. Cyn cyflawni'r gweithgarwch hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC leol i drafod a fydd angen trwydded arbennig arnoch o bosib ar gyfer unrhyw waith dros dro sydd ei angen yn ystod camau adeiladu'r prosiect.

Argymhellir bod llwyfannau tyllu a'r holl gyfarpar cysylltiedig yn cael eu symud o sianel y brif afon a'r gorlifdir pan fydd yr holl waith wedi ei gwblhau.